

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun, 5 Gorffennaf 2021 am 7:00pm drwy Zoom.

YN Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Anne Roberts, Stephen Beach, Gavin
BRESENNOL: Harris, Jim Bryan, Heather Williams, Christine Ellis

17. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyng Mike van der Eijk

18. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

20. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021 yn gofnod cywir.*

21. MATERION YN CODI

Dywedodd y Cyng Menna Jones wrth yr aelodau y bydd yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth o sbwriel y mae hi a'r Cyng Anne Roberts yn ei arwain gyda'r ysgolion yn digwydd ar ôl gwyliau'r haf.

Rhoddodd y Cyng Gavin Harris y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y meinciau. Bydd 3 yn cael eu newid o fewn y pythefnos nesaf (cornel Ffordd y Parc, dwy ar Lôn Parcwr). Mae ganddo bellach y ffurflenni i wneud cais am ganiatâd ar gyfer y ddau leoliad newydd. Ni chafwyd ymateb byth gan Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r ddwy fainc o eiddo Cyngor Tref Rhuthun sy'n cael eu storio. Bydd y Cyng Harris yn gofyn i Teesons symud y fainc sydd wedi torri ger Awelon, fel y gall Rob Stephen (mab y gŵr bonheddig a wnaeth y gwaith metel ar y fainc) ei nôl.

Dywedodd y Dirprwy Glerc wrth yr aelodau na chafwyd ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch newid y Biniau Baw Cŵn na'r broblem o ran cŵn yn gyffredinol yng Nghae Ddôl.

Dywedodd y Cyng Menna Jones wrth yr aelodau y bydd y plac er cof am Mr Phillips yn cael ei ddadorchuddio yn ddiweddarach eleni pan fydd Mrs Phillips yn gallu bod yn bresennol.

Rhoddodd y Dirprwy Glerc y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynghylch y basgedi crog – mae'r rhai yr oedd angen eu symud wedi cael eu symud. Nid oes planhigion ar gael yr adeg hon o'r tymor i'w llenwi, felly cytunwyd y byddant yn parhau i fod yn wag. Bydd y Dirprwy Glerc yn cysylltu â Chanolfan Arddio Glyndŵr i holi am y gosodiadau sy'n cael eu rhoi yn y basgedi, o eiddo Cyngor Tref Rhuthun, y maent yn eu storio. Cytunwyd fod gwersi wedi'u dysgu am y broses, a fydd yn gymorth o ran gosod y basgedi y flwyddyn nesaf.

22. DYDDIAD BEIRNIADU'R ARDDANGOSFEYDD BLODAU

Bydd y beirniadu'n cael ei hyrwyddo drwy dudalen Facebook Yr Hen Lys, felly mae perchnogion busnes yn ymwybodol ei fod yn digwydd.

Dywedodd y Dirprwy Glerc fod busnesau ar Heol Clwyd wedi bod yn rhagweithiol iawn eleni ac o ganlyniad mae Reebees, yn garedig iawn, wedi cytuno i roi cyfres o becynnau at ei gilydd i berchnogion busnes yn y dref yn 2022 (bydd angen iddynt archebu cyn diwedd 2021).

PENDERFYNWYD: *Bydd y Cynghorwyr Menna Jones, Heather Williams a Christine Ellis yn beirniadu'r arddangosfeydd ddechrau mis Awst. Y dyddiad i'w gadarnhau.*

23. TÎM TREFI TACLUS

Eglurwyd fod y Tîm Trefi Taclus wedi bod yn dawel oherwydd y cyfyngiadau. Cynigiwyd y bydd y tîm yn ail-gychwyn arni ym mis Gorffennaf ac yn canolbwyntio ar yr ardal o amgylch maes parcio Lôn Dogfael gan gasglu sbwriel a gweld beth arall y gellir ei wneud yn yr ardal honno.

PENDERFYNWYD: *Bydd y Dirprwy Glerc yn cydlynu gwaith y Tîm Trefi Taclus ac yn trefnu digwyddiad ym mis Gorffennaf.*

24. GARDD GER YR ORSAF HEDDLU

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau nad yw'r ardd fach ger yr Orsaf Heddlu yn cael llawer o ddefnydd. Awgrymwyd y gallai Cyngor Tref Rhuthun ymholi ynghylch defnyddio'r ardd fel man tawel i fyfrio.

PENDERFYNWYD: *Bydd y Cyng Anne Roberts yn cysylltu â Ceri (yn yr Orsaf Heddlu) ynglŷn â'r ardd.*

25. Y PRIF FFYRDD I MEWN I RHUTHUN

Rhannodd y Cyng Menna Jones luniau yn danagos cyflwr gwael y ffyrdd i mewn i Rhuthun o gyfeiriad Corwen a Dinbych. Codwyd materion eraill gan gynnwys yr arwydd "Croeso i Rhuthun", yn sgil y cyfyngiadau cyflymder newydd (Ffordd Dinbych), mieri ac isdyfiant ar lwybrau teithio llesol (Heol y Parc, y llwybr i safle ysgolion Glasdir a Ffordd Wrecsam), a diffyg atgyweirio'r palmentydd. Cynigiwyd a chytunwyd y dylid galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Amwynderau a bydd y tri Chynghorydd Sir yn cael eu gwahodd i drafod hyn.

PENDERFYNWYD: *Bydd y Dirprwy Glerc yn trefnu cyfarfod rhwng y Pwyllgor Amwynderau a'r Cynghorwyr Sir Huw Hilditch-Roberts, Bobby Feeley ac Emrys Wynne.*

26. MAN PARCIO Y TU ÔL I'R HEN LYS

Mae'r man gwag y tu ôl i'r Hen Lys wedi cael ei ddefnyddio gan fanwerthwyr lleol ers i'r banc gau yn 2017. Gan fod angen bellach i'r staff ei ddefnyddio, cynigiwyd a chytunwyd i osod bolard sy'n plygu.

PENDERFYNWYD: *Bydd y Cyng Gavin Harris yn gofyn i Teesons osod bolard sy'n plygu.*

27. CYFLE ARIANNU AR GYFER SEILWAITH DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL

Cafodd yr aelodau wybodaeth am gronfa Seilwaith Digwyddiadau Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych. Rhoddodd y Dirprwy Glerc wybod i'r aelodau y bydd y swyddog o Gyngor Sir Ddinbych sy'n cydlynu'r gronfa hon yn rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod y Cyngor Tref ar 12 Gorffennaf. Dywedwyd fod gan Bwyllgor Gŵyl Rhuthun a Menter Iaith Sir Dinbych brosiectau yr hoffent eu trafod.

PENDERFYNWYD: *Pan fydd gan y Cyngor Tref ragor o fanylion a dealltwriaeth o'r gronfa, gall gysylltu â grwpiau cymunedol am syniadau ar gyfer prosiectau addas. .*

28. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai nos Lun 13 Medi 2021 am 7:00pm y cynhelir cyfarfod nesaaf.*